# Y DINESYDD

RHIF 6 TACHWEDD 1973.

# DYFODOL ADDYSG UWCH YN Y DDINAS

*HYWEL D. ROBERTS*

Yn ystod y tair blynedd nesaf, mae'n bosibl y bydd cyfnewidiadau mawr yn nhrefniadau addysg uwch y ddinas, y tu allan i'r brifysgol. Efallai y gwelir priodas rhwng addysg uwch (a gynrychiolir yn awr gan golegau Technegol Rumney, Colchester Avenue a Western Avenue). Bydd yn rhaid i goleg Cerdd a Drama sydd ar hyn o bryd yn y castell ffitio i'r patrwm oni bai yr ystyrir hwn fel Coleg Cenedlaethol ar gyfer Cerdd a Drama.

Nid yw Caerdydd ar ei phen ei hun mewn cyfnewidiadau o'r fath, a gwelir uno tebyg mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr. Yn y newid hwn fodd bynnag gobeithir na ddigwydd dim i lesteirio'r bywyd Cymraeg, naill ai'n academaidd nac yn gymdeithasol – bywyd a dyfodd o gwmpas Coleg Addysg Cyncoed yn arbennig. Erbyn hyn aeth nifer o fyfyrwyr drwy'r radd B.Ed., yn y coleg hwn, gan arbenigo mewn Cymraeg fel eu pwnc academaidd a dilyn rhan helaeth o'u cyrsiau Addysg hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Noddodd y coleg ddramâu Cymraeg a rhaglenni nodwedd Cymraeg, ac enillodd partion o'r coleg yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gwyliau eraill. Y mae cysylltiad agos rhwng y Coleg a gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Glan-llyn, ac ag Ysgolion Cymraeg drwy'r wlad.

**BETH YW'R DYFODOL I FOD?**

Y mae gan fyfyrwyr Coleg Cyncoed Swyddog Materion Cymreig ar Gyngor y myfyrwyr a dylai hyn weithredu hefyd yng ngholegau eraill y ddinas os yw Caerdydd yn wir brifddinas.

Yn y dyfodol, gall y Colegau uno'n rhyw fath o Goleg Polytechnig mawr. Gall un neu ddau o'r colegau fynd dan adain Prifysgol Cymru sydd eisoes yn gofalu am safon arholiadau a graddau yn y Colegau. Neu gall dau neu dri Choleg Addysg Bellach uno a gadael y lleill i barhau'n golegau unigol gan ddatblygu cyrsiau newydd megis y Diploma Addysg Uwch. Amser a ddengys. Beth bynnag a fydd y dyfodol, rhaid gofalu na ildir modfedd o'r hyn a enillwyd ar le'r Gymraeg yn Addysg Uwch Caerdydd.

## FFRIND PLANT

**Siom a thristwch i'w nifer cyfeillion oedd clywed am farwolaeth sydyn Barbara Parry. Roedd yn addoli'n gyson yn eglwys Dewi Sant, ac roedd yn ei lle arferol y Sul cyn iddi farw. Nid oedd ond 41 oed.**

**Merch dawel, un a garai'r ymylon, oedd Miss Parry, ond roedd yn llawn o fwrlwm iach bob amser, ac ni allai neb beidio ag ymateb i gyfaredd ei chyfeillgarwch.**

**Fe gafodd ei magu yn Sgiwen ac addysgwyd hi yn ysgol uwchradd Castellnedd a Phrifysgol Caer-lŷr. Roedd ei holl fywyd ym myd plant a dechreuodd ar ei gyrfa fel Swyddog Plant i Gyngor Sir Morgannwg. Yn ddiweddarach, daeth yn Swyddog Plant yng Nghaerdydd, ac wedyn yn Swyddog Rhanbarthol yn y ddinas.**

**Yn 1965, fe gafodd ei phenodi yn Brif Swyddog Plant ym mwrdeistref Casnewydd, ond yn 1971, derbyniodd swydd gan Gymdeithas Dr. Barnado fel Swyddog Rhanbarthol (adran y plant) yn Ne Cymru a Gorllewin Lloegr. Fe fu'n gyfrifol am aildrefnu'r rhanbarth a hefyd am helaethu'r gwaith.**

**Ond ni chafodd fyw i weld ei holl gynlluniau yn cael eu cyflawni.**

**Mae'r ddau ganolfan dyddiol i blant bach yng Nghaerdydd a Llanelli heb eu gorffen, ac roedd 'na gynlluniau hefyd ar y gweill i agor ysbyty i blant methedig yn Ne Cymru.**

**Cysegrodd ei bywyd i'w phlant, ac mae llu ohonyn nhw a'u rhieni yn galaru ar ei hôl. Ni fu neb yn fwy ymroddgar na hi ac fe enillodd serch ac edmygedd pawb a'i hadnabu. Bydd y golled ar ei hôl yn fawr.**

**Diolchwn i Dduw am bob coffa amdani ac eiddunwn nerth a chysur Duw i Mrs. Parry yn ei cholled a'i galar.**

**Y Parchedig George Noakes**

# FICER NEWYDD

Efallai bod nifer ohonoch wedi bod yn mynychu'r Plaza rywbryd, ond nid pawb sy'n gwybod fod adeilad arall, yr un mor bwysig, yn ymyl y lle – a'i fod yn awr ar newydd wedd.

Cyfeiriaf at eglwys Gabalfa.

Ac mae honno nawr yn mynd i gael ficer newydd, sef Y Parchedig J. C. Mears. Fe gaiff ei sefydlu ar y deunawfed o Ragfyr.

Brodor o Rydyfelin, ger Aberystwyth, yw Mr. Mears a chafodd ei addysg yn Ardwyn, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, a Neuadd Wycliffe, Rhydychen. Cafodd ei radd M.A., yn 1948.

Dechreuodd ei weinidogaeth yn Esgobaeth Llanelwy, ac fe fu yn gurad ym Mostyn a Rhosllanerchrugog cyn mynd yn ficer Cwm.

Fe'i penodwyd yn ddarlithydd yng ngholeg Sant Mihangel, Llandaf yn 1959, ac ar ol 14 blynedd o ddarlithio mewn Moesog ac Athrawiaeth Gristnogol, mae'n dychwelyd i waith plwyf.

Mae'n enwog fel aelod o'r Comisiwn Litwrgaidd yn yr Eglwys yng Nghymru, ac yn un o ysgrifenyddion y Cydbwyllgor Anglican-Pabyddol. Mae'n gaplan i Esgob Llandaf a hefyd i ddarllenwyr lleyg yr Esgobaeth.

Hanna'i wraig, Mrs. Mears, o Faerdy ac mae'n athrawes yn ysgol yr Eglwys Gadeiriol ar hyn o bryd. Mae Wyn, y mab, yn gweithio gyda'r Bwrdd Croeso ac mae'r ferch, Eleri, newydd ddilyn camre'i thad i Goleg Prifysgol Aberystwyth.

**CYWIRIAD**

*Ar y 14 o Ragfyr y perfformia Ysgol Rhydfelen Elias yn Y Tabernacl, ac nid ar y 14 o Dachwedd fel y nodwyd yn ein rhifyn diwethaf. I'r rhai hynny ohonoch na all ddod i'r Tabernacl, fe fydd perfformiad arall ym Merthyr y noson ddilynol.*

# Penblwydd Hapus

Eleni, mae tŵr Eglwys Blwyf Sant Ioan ynghanol y ddinas yn dathlu pen ei flwydd yn bum cant oed. Fe gafodd ei adeiladu yn 1473 gan un o ferched Warwick a hwn yw'r cofgolofn gorau a feddwn i hanes cynnar ein dinas.



Erbyn heddiw, mae wedi cael ei gau i mewn gan siopau a swyddfeydd, ac mae'n edrych yn gorachaidd, braidd, yn ymyl yr adeiladau anferth, aml eu lloriau, ond am dros bedair canrif, fe fu'r tŵr hwn yn hawlio lle amlwg ymhlith adeiladau'r ddinas. Pan oedd Rice Merrick yn sgrifennu yn 1576, dywedodd amdano, "a very faire steeple of grey Ashlere . . . beautifyed with Pinnacles" a dywedir mai tŵr eglwys Wrecsam yw'r unig dŵr eglwys yng Nghymru a fedd fwy o binaclau nag e.

Tybed faint ohonom sy'n oedi i ddotio ar ei harddwch wrth ruthro o fan i fan i siopa? Mae'n enghraifft wych o bensaerniaeth berpendicilar, ac mae mawredd ei wyneb moel yn cael ei arddangos gan y gwaith cerfio ar y maen sy'n ei goroni.

Mae gan y tŵr ddeg o glychau ac mae eu sain wedi mynd ymhell o'r ddinas i wledydd y byd yn ystod y Nadolig pan seinir clychau'r eglwys ar y radio.

**HEN, HEN, EGLWYS**

Mae'r eglwys ei hun yn hŷn o gryn dipyn, ac roedd pobl yn addoli ynddi mor bell yn ôl â'r ddeuddegfed ganrif. Fe ddioddefodd yr eglwys wreiddiol yn enbyd yn ystod rhyfeloedd Glyn-dŵr yn 1404, ac yn ystod yr ailadeiladu y dringodd y tŵr hardd a welir heddiw i'r entrychion.

Ond rhaid wrth nerth i ddringo, ac fel llawer peth arall sy'n tyfu'n hŷn, mae'n dioddef oherwydd y gelyn amser. Mae angen glanhau, twtio'r gwaith cerf ac ail bwyntio llawer hwnt ac yma ac fe gyst y gwaith £10,000 o bunnoedd.

Nid erthygl apêl yw hon, ond llith i dynnu sylw at un o hynodion y ddinas, ond rwy'n siŵr na fydd ben, yn ystod tymor ewyllys da'r Nadolig am i glychau eglwys Sant Ioan ganu eu holaf gnul yn gynt na phryd. Mae Cyngor y Ddinas eisoes wedi cyfrannu £1,000 ac mae nifer o bobol, gyda Chymry Cymraeg amlwg yn eu plith, hefyd yn cefnogi'r ymgyrch.

**DWY NEU GEINIOG! DAN GANU!!**

Cofiwch ddod i CODI'R TO, y noson hwyliog o ganu'r hen gerddi a gynhelir yn Neuadd Cory Nos Sadwrn, Tachwedd 24ain. Fe fydd hon yn noson anghyffredin mewn sawl ystyr. Y drefn yng Nghymru fel rheol yw canu emynau mewn cymanfa, ond mae'n siŵr y cewch chi gymaint o hwyl bob tamaid yn canu rhai o'u hen ganeuon gwerin felly noson edrych yn ôl fydd hi ar sawl cyfrif.

Fe fydd dau arweinydd tan gamp yn ein harwain hi, neb llai na Ryan Davies a Meredydd Evans. Ac fe fydd pob elw a wneir yn mynd i goffrau'r Dinesydd. Dyma un yn unig o'r ffyrdd i sicrhau fod dolen gyswllt fel hon rhwng Cymry'r ddinas.

Gyda llaw, os oes gennych chi unrhyw newyddion ar gyfer Y Dinesydd, cofiwch anfon at Y Golygydd, 44 Heol y Nant CAERDYDD.




# WELSH DYLAN

*Nia Hall Williams*

Teyrnged "Theatr yr Ymylon" i Saunders Lewis ar achlysur ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed oedd y digwyddiad Cymraeg cyntaf yn y Sherman Theatre newydd. Yr arddangosfa fawr gyntaf yno yw "Welsh Dylan" (ar agor hyd Tachwedd 23ain). Cyd-ddigwyddiad hapus, felly, yw gweld yn yr Arddangosfa ddogfen sy'n ddolengydiol rhwng y ddau lenor – sef llawysgrif y deyrnged a ddarllewyd gan Mr. Lewis ar ôl marwolaeth Dylan Thomas ugain mlynedd yn ôl.

## Bwriad yr arddangosfa

Y bwriad yw portreadu'r llenor a'i gefndir yn ystod y cyfnodau y bu'n byw yng Nghymru; ei blentyndod yn Abertawe ac yna flynyddoedd ei aeddfedrwydd yn Nhalacharn. Dyma'r gyntaf o gyfres o arddangosfeydd Cyngor y Celfyddydau i gyflwyno llenorion Cymru mewn llun a llên. I un sy heb fod naill ai'n llenor nac yn artist, mae'r dasg o gyflwyno gwr y geiriau mewn dull gweladwy yn ymddangos yn frawychus. Bûm yn trafod y broblem gyda'r trefnyddion – yr Adrannau Llên a Chelf yng Nghyngor y Celfyddydau.

## Lleoliad

Ar wahoddiad Theatr y Sherman, fe'i cynhelir yn Theatr yr Arena yno a dyma sialens newydd i'r cynllunwyr. Theatr wythochrog yw hon gyda'r oriel yn uchel o'i chwmpas. Bu'n rhaid cofio, felly, am y dimensiwn newydd a roddir i'r arddangosfa gan fod modd edrych i lawr arni yn ogystal â chrwydro o gwmpas.

Eir ati drwy'n gyntaf ddefnyddio darluniau o'i gartrefi, ei ysgol a'i gyfeillion. Yna, ceir darluniau o'r golygfeydd a fu'n gymaint o'i fywyd a'i waith – aber yr afon yn Nhalacharn, er enghraifft. Defnyddir dogfennau, llawysgrifau a llythyrau a'r cyfan wedi eu cysylltu â dyfyniadau o'i waith i greu cyfres o ddelweddau llenyddol a gweladwy – heb ymyrraeth sylwadau o'r tu allan. Ac i gysylltu'r glust a'r llygad, clywir llais Dylan Thomas yn darllen o'i weithiau ddwy waith y dydd yn ystod yr Arddangosfa.

## Prinder defnyddiau?

Yn wahanol i ambell lenor, mae 'na gyfoeth o ddogfennau ynglŷn â bywyd Dylan a'r cyfraniadau wedi llifo i mewn – o'r Unol Daleithiau a'r Llyfrgell Brydeinig a thrwy law cyfeillion (un ohonynt o eiddo Rhydwen Williams yn ddarlun arbennig iawn ar achlysur ei gladdu). Hyd yn oed pan fu gwaith ditectif yn angenrheidiol bu'r ymdrech yn werth fawr a thrysorau'n dod i'r wyneb fel y llith o eiddo Dylan (wedi ei ysgrifennu ar un ochr yn unig – bonws i gynllunydd) yn esbonio sut y bu iddo fethu â chadw'i gyhoeddiad i siarad yng nghinio'r B.M.A. yn Ninbych-y-pysgod – llythyr nodweddiadol a doniol dros ben.

I nodi'r achlysur, mae'r Adrannau Llên a Chelf wedi cydweithio ymhellach i gynhyrchu poster (ar werth am 50c) sef cyflwyniad darluniadol o "Fern Hill" wedi ei gynllunio gan Sue Shields o'r Eglwys Newydd.

Ac yn siop lyfrau Lears, mae yna arddangosfa o lyfrau Dylan Thomas.

Nodi : Nid "The Boathouse" enwog ond "Sea View", un o gartrefi Dylan Thomas yn Nhalacharn. Cymerwyd y llun ar gyfer yr Arddangosfa yn Theatr Sherman gan Arthur Williamson, Hwlffordd.




# Cyngor Chwaraeon Cymru

CANOLFAN CHWARAEON CYMRU, GERDDI SOPHIA, CAERDYDD

*Cyfleusterau ar gyfer cyrsiau ymarfer*
*Preswyl a di-breswyl a Chwaraeon cenedlaethol a rhyngwladol*

DIGWYDDIADAU:
Gwener/Sadwrn – 23/24 Tachwedd
Sponcen : Pencampwriaethau Cymru

Gwener/Sadwrn – 30 Tachwedd/1af Rhagfyr
Badminton : Pencampwriaethau Cymru

Sadwrn 1af Rhagfyr –
Ffensio : Pencampwriaethau timau ffoil Cymru

Sadwrn 8fed Rhagfyr
Tenis Bwrdd : Cynghrair Tenis Bwrdd Caerdydd a'r Cylch

Sul 16eg Rhagfyr
Pêl Fasged : Gêmau'r Prif Gynghrair

*Manylion pellach o'r Ganolfan. Ffôn: Caerdydd 397571*





GYDA'R NADOLIG YN PRYSUR AGOSHAU DAW'R AMSER I FEDDWL AM ANRHEGION. CEWCH DDEWIS DIBENDRAW O'R RHAIN YN EIN ADRANNAU TEGANAU, CROCHENWAITH A GWYDR, RHODDION TRYDAN AC ATI – DEWCH I WELD. NI CHEWCH EICH SIOMI.

Dan Evans

Y BARRI 4242


## BETH AMDANI?
# Theatr yr Ymylon

*gan Lenna Pritchard Jones.*

**Roedd penwythnos Hydref 20-21 yn benwythnos gofiadwy a phleserus i garwyr y theatr Gymraeg yn y brifddinas. Cawsom ddwy noson o fwynhad digymysg, y naill gan Gwmni Theatr Cymru yn cyflwyno "Y Ffin" – Gwenlyn Parry, a'r llall gan Theatr yr Ymylon yn ei rhaglen deyrnged i Saunders Lewis. Gresyn i actorion gwych "Y Ffin" orfod ymdopi â llwyfan neuadd coleg ac i ninnau orfod diodde'r cadeiriau celyd ar lawr gwastad, ond y noson ganlynol cawsom fwynhau moethusrwydd theatr newydd Y Sherman ar ei noson Gymraeg gyntaf.**

Amheuthum oedd cael mynd i theatr go-iawn a chael y lle yn orlawn o Gymry Cymraeg wedi dod i wylio gwaith ein prif ddramodydd. Roedd awyrgylch y lle o blaid Theatr yr Ymylon cyn i'r cwmni ddechrau ar ei gwaith. Ac yn bersonol, chefais i mo'm siomi.

## TEYRNGED I SAUNDERS LEWIS

Teyrnged i Saunders Lewis gan actorion Cymraeg oedd y rhaglen hon, gan ddibynnu'n gyfangwbl ar eiriau'r dramodydd. Roedd y cynhyrchydd, George Owen, wedi dewis yn gelfydd, ddarnau o nifer o'r dramâu, a rhaid ei longyfarch ar beidio â cheisio cynnwys popeth. Gosodwyd y darnau o fewn i dair ffrâm gan agor gydag araith Mr. Lewis yn y llys. Yn y rhan gyntaf, portreadwyd cariad at wlad a chenedl, yn yr ail ceid gwrthdaro rhwng serch a chariad a phennawd y drydedd ran oedd **Y Dewis.** Cafwyd clo iasol gyda dehongliad gwefreiddiol Stewart Jones o araith Emrys Wledig a thu cefn iddo tafluniwyd – ar ein chwith – dafod Cymdeithas yr Iaith, ac ar y dde lun o Mr. Lewis ei hun. Fe ellid bod wedi galw hyn yn stroc ar ran y cynhyrchydd ond fe lwyddodd ymhell y tu

*parhad ar dudalen 8.*

# Rhyfel y Penfras ar ein Trothwy

*gan ein gohebydd pysgota.*

**Nosweitnıau awchlym Tachwedd yw'r cyfnod prysuraf o'r flwyddyn yng nghalendr pysgotwyr y Ddinas. Gyda'r barrug cyntaf daw haid o wyniaid y môr tua'r traethau, a phenfras ar eu trywydd. Eisoes cafwyd penfras cymaint a 13 pwys oddi ar wal Doc Caerdydd, a draw ym Mhenarth fe ddelir rhai oddeutu'r 15 pwys.**

Mae gan Clive Gammon, un o'r awdurdodau mwyaf blaenllaw ar bysgota ledled y byd, ddamcaniaeth sy'n esbonio'r ymchwydd rhyfeddol yn y nifer o benfras a geir o gwmpas Caerdydd. Mae e'n credu bod y dyfroedd lleidiog, oer sy'n llifo'n chwim o Fôr Hafren rhwng Casnewydd a'r Barri, gyda'u halwynedd isel oherwydd yr Hafren, Avon, Y Gwy, a'r Wysg, yn creu amodau cyffelyb i'r dyfroedd lle'r arferai'r mwyafrif o benfras fwrw grawn.

Beth bynnag y bo, o'r barrug cyntaf hyd yr olaf o'r gaeaf hwn, try'r llecyn hwn o'r arfordir yn ymgorfforiad o Dungeness – y llecyn hwnnw ar arfordir Swydd Caint sy'n enwog am ei benfras. Gan amlaf ymestyn y tymor o'r Hydref hyd Fawrth neu Ebrill, ond o achos y gaeaf hynod o dyner a gafwyd y llynedd, diflannodd y rhan helaethaf ohonynt erbyn Ionawr.

## UN NA DDIHANGODD!

Ond nid y penfras yw'r unig ryfeddod ar yr arfordir hwn. Ceir nifer go lew o ddraenogiaid y môr (bass) o gwmpas o hyd, sy'n debygol o aros hyd y Nadolig, yn groes i bob rheol. Pythefnos yn ôl enillwyd cystadleuaeth a gynhaliwyd ar y traeth i'r de o Benarth gyda physgodyn dros 5 pwys. Fe'i daliwyd yn nghyffiniau Pwll Ranny, man pysgota hynod o lwyddiannus oblegid y cynifer o berdysod a geir yno. Heb fod nepell oddi yno, ar draethau Bae Ffynnon Sain Mari, daliwyd draenogiaid y môr i fyny i 9 pwys yn ystod yr haf, a daliwyd rhai mewn haig o gwmpas y deubwys hyd ddiwedd Hydref. Yn wahanol i benfras, mwynhâ draenogiaid y môr yr heli clir, croyw a glân. Hynod o ryfedd yw'r gorgyffwrdd a geir yn gyson rhwng y gwahanol fathau o bysgod o amryfal gyfaneddau a mympwyon o gwmpas Trwyn Larnog yn rhan olaf yr hydref. Ond fe rydd fonws i'r pysgotwr.

Er bod y ddau fath ar drywydd pysgod bychain yn yr haf, yn y gaeaf cymysgfa o grancod, perdysod a lledenod yw eu prif fwydydd. Y mae'r modd y llwydda'r pysgod hyn i stumogi cregyn sylweddol heb ddiffyg traul y tu hwnt i unrhyw ddealltwriaeth.

## LLYGREDD YN Y MÔR

Yn ddiweddar, honnodd Cliff Wareham, Ysgrifennydd y Rhanbarth Ddwyreiniol o Ffederasiwn Cymreig o Bysgotwyr y Môr, na goginiai ei wraig fyth unrhyw bysgodyn a ddaliwyd ym Môr Hafren. Y mae hyn yn cyffwrdd ag un o'r pynciau mwyaf llosg a drafodir ymhlith pysgotwyr ar y traeth, sef llygredd. Y maen nhw yn poeni y bydd i'r trychinebau sy'n dod i ran pysgotwyr yr afonydd a'r llynnoedd, yn hwyr neu'n hwyrach ddod i'w ran yntau. Dywed rhai iddynt ddigwydd eisoes, er bod y dystiolaeth, a sylfaenwyd ar y cynifer helaeth o bysgod holliach – yn ôl eu hymddangosiad allanol, beth bynnag – a ddaliwyd ar yr arfordir yma, yn profi i'r gwrthwyneb.

"Ond na", meddai'r hen law, "'dyw'r pysgota ddim fel y buo fe". Erys cryn dipyn o'r bai am hyn ymhlith llongau pysgota Prydeinig a Chyfandirol sy'n lladd pob pysgodyn yn y mannau hynny lle maen nhw'n bwydo cyn dychwelyd i'r arfordir. Mewn erthygl yn y *Sea Angler*, Ebrill 1973, gan Vic Haigh, Cadeirydd y Clwb Pysgota – *Endeavour Deep Sea Angling Group* – o Aberystwyth dywedir:

". . . heb os, y ffactor mwyaf o blaid y pysgotwr yw'r ffaith bod nemor ddim treillio ym Mae Ceredigion . . ." Serch hynny, pan es i i bysgota gyda Vic Haigh ddeunaw milltir o'r lan yn Aberystwyth, fe ganfyddais bod treillong wedi rhannu oddeutu 16 milltir sgwâr o fôr pysgota hynod o werthfawr o fewn grid gyda thonfeddi radio o fewn y ffiniau hyn.


Roeddynt yn clirio gwely'r môr o'i holl bysgod mor lân â chownter siop bysgod ar ddiwedd dydd. Does dim rhyfedd bod pysgotwyr Ynys-yr-Ia am y gorau i gael gwared o unrhyw longau eraill.

## PRINDER LLITHWYR

Oherwydd y gaeafau tyner a gafwyd, bu farw cyfartaledd uchel o'r grawn penfras a fwriwyd. Soniwyd am y gor-bysgota eisioes. Ond y broblem fwyaf yw abwyd Ar y lan does dim i gymryd lle'r abwyd "ragworm" a "lugworm". O gwmpas Caerdydd ceir pysgotwyr yn defnyddio ragworm byw yn bennaf. Mae hwn ar gael yn siop tacl Steve Miles, Heol Penarth, ac fe ddaw o leoedd mor bell â Larne (Gogledd Iwerddon), Aber Tafwys ger Southend a Southampton Water. Tywydd gwael, ertrai anffafriol ac anawsterau trafnidiaeth sy'n amharu ar y cyflenwad. Defnyddir ystifflogiaid o Galifornia i gyflenwi'r galwad, ond does dim cymhariaeth yn eu heffeithiolrwydd.

Erbyn hyn mae'r gwelyau "lug" ar draethau Caerdydd, fu unwaith mor gyfoethog, bron yn gwbl ddiffaith, er y gwelir gwelliant tua'r gwanwyn. Diwerth hollol, bellach, yw cloddio yn y gwelyau o abwyd "rag" ger glanfa Penarth ac o fewn Sarn Ynys Sili. Dim ond pysgotwyr mewn cychod a all ddefnyddio mecryll a phenwaig fel abwyd, oblegid pur amharod yw'r pysgod i gymryd darnau o bysgod fel abwyd, a hwythau wedi eu taflu o'r lan.

Pur anfoddhaol fu'r abwyd marw a geir mewn pacedi yn ngolwg y pysgotwyr difrifol, er y gwerthir y rhain yn ddygn yn yr haf yn ein trefi glan y môr, sy'n dlawd o unrhyw abwyd. Bu ymdrechion di-ri ar droed i geisio cynhyrchu abwyd artifisial, ac mae rhai ar werth eisoes. Mae ffortiwn bychan yn aros y dyfeisiwr llwyddiannus.



# Gwyliau Gaeaf

*Beth am fwrw'r penwythnos yng nghefn gwlad Cymru?*

**Gyda Haf Bach Mihangel wedi chwythu ei blwc olaf a'r "ymwelwyr mwyar duon", chwedl pobl Cricieth, wedi cefnu ar Gymru am flwyddyn arall, dyma ddiwedd ar fusnes gwely a brecwast Mrs. Jos, Nymbar 10 am eleni eto. 'Dim colled,' medd rhai. Ond beth am yr ardaloedd hynny sy'n dibynnu i raddau helaeth iawn ar y diwydiant ymwelwyr am eu bywoliaeth? Llwm iawn yw hanes y gwestyau hwythau ar ôl miri'r haf.**

Ond eleni, daw tro ar fyd gyda chynllun diweddaraf Bwrdd Croeso Cymru i ymestyn y tymor gwyliau er mwyn sicrhau economi cyson i'r ardaloedd hynny. Gyda chydweithrediad nifer fawr o westyau safonol ledled Cymru, o Gaergybi i Gaerdydd, llwyddwyd i ddarparu gwyliau penwythnos rad a fyddai'n hwb i'r gwestyau dros gyfnod hir y gaeaf, ac yn gyfle i Gymry fanteisio ar foethusrwydd ein gwestyau gorau am bris hynod o isel.

Dyma gyfle i **chwi** ddarganfod y Gymru wledig ym mhrydferthwch yr hydref – y Parciau Cenedlaethol yn eu lliwiau amryfal, neu'r traethau diddiwedd yn eu hunigedd tawel. Pwy fyn ymweld â'r Yswistir yn y gaeaf, ac Eryri Wen hithau yn ei godidogrwydd? Gwesty glan môr, neu blasty hynafol, castell neu fotel – beth bynnag y bo – maent oll yn cynnig penwythnosau rhad o loddesta a diota am brisiau hynod o resymol.

Beth amdani? Dyma'ch cyfle i flasu Cymru yn heddwch yr hydref a'r gaeaf. Os am gopi o'r llyfryn sy'n rhoi manylion hanner cant o'r gwestyau hyn anfonwch am gopi yn rhad ac am ddim at:–

**Yr Adran Farchnata, Bwrdd Croeso Cymru, Stryd Fawr, Llandaf, Caerdydd.**


CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y swyddi a ganlyn

**SWYDDOG LLENYDDIAETH**

Cyflog ar raddfa o £1,725 hyd at £2,667 yn ôl oed a phrofiad

Bydd y swydd hon yn wag o Ionawr 1af, 1974. Dylai ymgeiswyr fod â gwybodaeth dda o lenyddiaeth gyfoes, yn enwedig llenyddiaeth Gymraeg neu/ac Eingl-Gymreig, a dylsent fod yn gyfarwydd â'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol i weinyddu polisiau Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Llenyddiaeth ac fe fydd yn gyfrifol am nifer o'i gynlluniau.

**YSGRIFENYDDES**

Cyflog ar raddfa o £1,150 hyd at £1,600 yn ôl oed a cymwysterau

Bydd y swydd hon, yn yr Adran Lenyddiaeth, yn wag o Ragfyr 1af, 1973. Dylai ymgeiswyr allu siarad Cymraeg a meddu ar gymwysterau ysgrifenyddol addas. Fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel ysgrifenyddes bersonol i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ac fe fydd yn gweithio gyda staff yr Adran i weinyddu ei holl gynlluniau.

Dylid danfon ceisiadau ar gyfer y ddwy swydd at Gyfarwyddwr Cyngor Celfyddydau Cymru yn Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd cyn Rhagfyr 1af, 1973. Gofynnir i'r ymgeiswyr am swydd Swyddog Llenyddiaeth i ddanfon am fanylion pellach cyn cynnig am y swydd.



*Rhai llyfrau gan*

HTV CYMRU WALES

1. **Yn awr yn y siopau** llyfr newydd Wynford Vaughan-Thomas *'The Splendour Falls'* dros 140 o dudalennau, lluniau lliw – hanes datblygiad y cestyll yng Nghymru.

   Pris £2.50

2. Ar y gweill – ail lyfr *'Miri Mawr'*.
   Môr o ddiddanwch i'r plant – holwch eich llyfrwerthwyr.
   Dosbarthwyr Christopher Davies.

3. *'Cymraeg i Bawb'*.
   i'r rhai sy'n dysgu'r iaith.
   Ail ddangosiad o'r gyfres boblogaidd yn dechrau Rhagfyr 3ydd.

   Llyfryn gyda'r gyfres i'w gael o'r Adran Gysylltiadau Cyhoeddus, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd.
   Tel: Caerdydd 26633.

# MAES Y PLANT

Ych chi'n dda am ateb cwestiynau? Wel, mae RHIAN LEWIS am wybod pa mor dda ych chi. Dyma ichi ddeg cwestiwn! Tybed faint ohonyn nhw gewch chi'n gywir? Wedi ichi roi cynnig arni, trowch i dudalen 7 am yr atebion.


1. Pwy eisteddodd ar lan y môr, a gorchymyn i'r tonnau aros yn llonydd?
2. Beth yw'r enw a roddir ar iaith y Sipsiwn?
3. Beth yw prifddinas Malaya?
4. Lle mae ynys Bali?
5. Dim ond yn un Pegwn y ceir y pengwin. Pa un?
6. Ym mha un o lyfrau Dickens ceir y cymeriad Sam Weller, a beth oedd ei waith?
7. Yn y 19 ganrif ysgrifennodd Emily Bronte lyfr rhamantus gyda Heathcliff fel un o'r prif gymeriadau. Beth yw enw'r llyfr?
8. Pa iaith a ddyfeisiodd doctor o Boland - Ludovic Zanenhoff, i holl bobl y byd ei dysgu i siarad efo'i gilydd?
9. Pa un o'r rhai canlynol yw prifddinas Poland: a) Belgrade; b) Warsaw; c) Bucharest?
10. Allan o ba ddarn o gerddoriaeth daeth y dôn i "Land of Hope and Glory", a phwy gyfansoddodd y gerddoriaeth?

## BLE MAE HWN?

Mae camera Huw Jenkins wedi bod yn brysur iawn y mis yma eto. Fe gliciodd unwaith, a dyma'r llun a ymddangosodd. Nawr, ble yng Nghaerdydd y mae e?

Wedi ichi ddod i wybod, sgrifennwch yr ateb ar gerdyn a'i anfon i mi - 46, Crystalwood Road, CAERDYDD, CF4 4HW. Cofiwch nodi eich oedran ar y cerdyn - imi gael gwybod sut lyfr i'w anfon ichi os byddwch yn ddigon lwcus i ennill y wobr gyntaf. Cofiwch, fe aiff y wobr i'r cerdyn cyntaf a dynnir allan o het, nid y cerdyn cyntaf a ddernynnir.

Gyda llaw, os oes gennych chi lun o ddinas Caerdydd, rhyw lun y gallech chi dwyllo'ch ffrindiau ag e, fe fyddwn yn falch o'i gael e. Atebion i Mr. W. J. Jones, 46 Crystalwood Road, CAERDYDD.



## LLUN RHIFYN HYDREF

Tybed faint ohonoch chi lwyddodd i adnabod y llun a ymddangosodd yn rhifyn Hydref o'r Dinesydd? Os na welsoch chi e erioed o'r blaen, cadwch eich dau lygad yn agored wrth fynd drwy Barc Cathays, ac yn enwedig wrth fynd i lawr heibio i Neuadd y Ddinas - i gyfeiriad Heol y Frenhines - ac edrychwch i'r chwith. Mae'r cefndir yn ddu a'r angylion yn aur i gyd.

Fe gafwyd tri ateb, a'r tri'n gywir, sef Lowri ap Robert o Benarth, Llinos Angharad Williams o'r Eglwysnewydd ac Elizabeth Davies o'r Eglwysnewydd – ond yr enw cyntaf a ddaeth allan o'r het oedd Elizabeth Davies ac iddi hi'r aiff y wobr o lyfr.

## RHYWBETH BLASUS!

Gan fod cynifer o bobol yn bwyta cymaint yn ystod y Nadolig man a man i chwithe wneud rhywbeth syml i'w fwyta. Dyma fydd 'i angen arnoch chi.


1. Pedair llond llwy ford o laeth wedi'i dewychu (condensed)
2. Deuddeg owns o siwgwr eisin (fe fydd digon o hwn gan mami os yw hi'n gwneud teisen Nadolig)
3. Chwech owns o gneuen goco wedi'i malu a'i sychu (desiccated)
4. Un diferyn o liw (cochineal)

I ddechrau, cymysgwch y llaeth a'r siwgwr eisin gyda'i gilydd. Yna, troiwch y gneuen goco wedi malu i mewn i'r trwyth. Os cymysgwch chi'r cyfan yn dda, fe ddylai fod yn ddigon anodd ei droi.

Rhannwch y cymysgedd yn ddwy ran a'i fodio i ddau far tebyg i'w gilydd. Cyn mowldio'r ail far, cymysgwch y diferyn o liw i mewn iddo.

Powdrwch dun â siwgr eisin a gadael i'r ddau far eistedd arno nes eu bod yn rhesymol galed.

A dyma'r dasg olaf - perwch iddyn nhw DDIFLANNU!




Fyddwch chi'n edrych ar y sêr ambell noson?

Fe fu adeg pan oedd Hywel Jones, Heol Maes-y-Coed, Caerdydd, yn gwneud hynny ar bob nos ddigwmwl, ond mae mewn ysgol yn Llundain ar hyn o bryd ac yn teimlo'i bod braidd yn bell iddo fe ddod adre i gael mynd i'r arsyllfa sy ganddo fe ar y lawnt y tu cefn i'r tŷ.

Fe ofynnais i i Hywel a oedd yna rywbeth diddorol y gallech chi edrych arno fe yn yr awyr yn ystod gwyliau'r Nadolig, a'i ateb oedd fod yna rywbeth diddorol iawn yno - rhywbeth na fu erioed o'r blaen yn yr awyr uwchben Cymru ac na fydd yn dod i'r awyr uwchben Cymru beth eto. Beth?


## Y COMET KOHOUTEK!

A dyna ofyn cwestiwn yn syth! Pwy ar y ddaear fawr oedd Kohoutek?

A dyma stori Hywel,

Un noson, roedd yna ddyn yn tynnu lluniau o'r sêr, a doedd hynny ddim yn bell iawn yn ôl, chwaith - y seithfed o Fawrth, y flwyddyn hon. Wrth ei fod yn datblygu'r plât, fe welodd rywbeth na ddylai fod yno, rhyw farc od. Dyma fynd ati ar unwaith i dynnu rhagor o luniau o'r marc yma ac fe welodd y dyn fod y marc, beth bynnag oedd e, yn gyrru'n fuan i gyfeiriad yr haul. Enw'r dyn oedd Dr. Hohoutek ac roedd e'n gweithio yn arsyllfa Hamburg yn Yr Almaen. Gyda chymorth cyfeillion dyma fynd ati i astudio'r marc yma'n fwy manwl - a dyma nhw'n darganfod mai comed oedd e - ac nad oedd wedi bod o gwmpas y byd erioed o'r blaen.

Y seren fwya disglair yn yr awyr yw Sirius, ond fe ddywedodd Hywel wrthyf y bydd y gomed yn fwy disglair o lawer na honno. Fe ddywedodd na ellir ei gweld yn glir nes dechrau Rhagfyr, ond y bydd yn glir iawn am wythnosau wedyn. Felly, cofiwch edrych amdani hi.



## BLE I EDRYCH?

Fe fydd yn rhannau deheuol yr awyr, ond fe fydd yn bosibl ei gweld o Brydain . . . fe fydd yn dilyn llwybyr tebyg i daith o Gaerdydd i Abertawe. Cofiwch, fe fydd yn isel iawn yn yr awyr.

## CYNFFON

Pan fydd yn y gofod, does gan gomed ddim cynffon, ond pan ddaw i atmosffer y byd, mae'n magu cynffon o fân lwch sy'n disgleirio. Fe all y gynffon yma fod yn filiynau o filltiroedd o hyd, ac os felly, fe fydd yn werth ei gweld o'r ddaear. Ond nes y gwleir hi, does neb yn gwybod pa mor hir fydd y gynffon.

Roedd un cwestiwn yn fy mhoeni i. Sut oedd Hywel (a rhai eraill sy'n astudio'r sêr) yn gwybod na ddaw'r gomed yma byth yn ôl i'r awyr uwchben Cymru. Nawr, fe wyddoch fod y byd yn mynd o gwmpas yr haul, a'i fod yn mynd un waith bob blwyddyn, fwy neu lai. Taith fer iawn yw'r daith yma yn y gofod. Dim ond un o nifer o blanedau yw'r byd, a phe baech chi'n medru mynd ar daith o'r byd i'r blaned Iau, dyweder, fe gymerai eich taith lawer o flynyddoedd. Ond mae Iau yn agos i'r byd yn y gofod, ac mae Iau a phob planed arall yn mynd o amgylch yr haul. Nawr, dychmygwch gylch lawer mwy na chylch y planedau o gwmpas yr haul - cylch sy'n llawer iawn mwy - cylch na fedrwch chi na fi mo'i ddychmygu, mor fawr yw'r gofod Nawr, mae Kohoutek yn teithio ar gylch fel hyn. Ac fe ddywedodd Hywell, "Mae'n debyg y daw Kohoutek yn ôl i'r rhan yma o'r gofod rywbryd, ond fydd dim sôn am y byd a'r planedau eraill erbyn hynny."

Gyda llaw, rwy'n siwr y byddai Hywel yn falch clywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb yn y sêr! Pwy a wyr, falle mai un ohonoch chi ddaw o hyd i'r gomed nesaf! Ond pob hwyl wrth wylio Kohoutek!

## PWY SY AM FOD YN FFERMWR

Roedd gan ffermwr gae. Roedd dwy ffens unionsyth yn croesi'r cae yma. Yn y cae, hefyd, roedd e wedi plannu un ar ddeg o goed - fel yn y darlun. Nawr, roedd ganddo fe broblem. Roedd e am droi'r coed yn Goed Nadolig yn eu hunfan a chael ffens o gwmpas pob un.

Ond meddai'r gwas wrtho fe, "Dim ond ichi godi dwy ffens syth arall, ac fe ellwch chi rannu pob coeden oddi wrth ei gilydd."


Fedrwch chi wneud hynny?

Nawr, dwy linell syth - i gael pob coeden ar wahân i'w gilydd.

Un cliw - fe fedrwch chi ddyfalu sut mae ateb y broblem ar ôl edrych ar y llun yn y drych.

Os methwch chi ar ôl gwneud hyn, amlinellwch y llun ar bapur amlinellu a gosodwch hwn mewn gwahanol ffyrdd ar y llun yma - nes ichi gael yr ateb.

Os methwch chi eto - wnewch chi byth ffermwr! Pob hwyl!



# GWESTY'R 'CENTRE' YNG NGHAERDYDD

**Nodwedd arbennig o Westy'r "Centre" a agorwyd yn swyddogol beth amser yn ôl gan Harry Secombe yw'r defnydd a wnaed o'r Gymraeg ar arwyddion y tu allan a thu mewn i'r adeilad. Ar ochr orllewinol y gwesty ceir arwydd, "Gwesty 'Centre' Caerdydd" a dywedodd Mr. Owen Jones y rheolwr, "Rhoddwyd yr arwydd yn y fan honno er mwyn y rhai sy'n teithio i mewn o Orllewin Cymru weld bod yr iaith yn golygu rhywbeth i ni yma yng Nghaerdydd a gobeithiaf y bydd hyn yn arwydd o groeso iddynt"**

Mae gan y gwesty 160 o ystafelloedd gwely, pob un ohonynt ag ystafell ymolchi ei hun, set deledu, radio, teleffon a gwres canolog a reolir ymhob ystafell. Mae ynddo ddwy ystafell fwyta - y "Tapestry Grill" lle mae dewis o fwydydd arbennig a'r Siop Goffi sydd ar agor drwy'r dydd am fyrbrydau a phrydau llawn.

Mae lleoliad y gwesty, ger y Maes Rygbi Cenedlaethol, yn cael ei adlewyrchu yn y thema a ddefnyddir yn "Nhafarn y Goron Driphlyg" un o'r dau far a geir yno. Eisoes, mae'r gwesty wedi bod yn fan aros i'r tim rygbi cenedlaethol a ddaeth ar ymweliad o Japan yn gynharach yn y tymor.

**CYNADLEDDA!**

Gyda'r cynnydd yn y drafnidiaeth i Gaerdydd o bob cyfeiriad, cynlluniwyd y gwesty i ddarparu ar gyfer y galwadau am gyfleusterau cynadledda ac arddangosfeydd. Mae lle i 250 i eistedd am ginio a dawns yn y brif neuadd ac mae ynddo gyfleusterau llwyfan, goleuadau ac offer arbennig i ddangos ffilmiau. Mae yno le i 400 i eistedd mewn cynhadledd.

Mae'r nodwedd Gymreig a geir yn y gwesty eisoes wedi denu ymateb cynnes oddi wrth ymwelwyr â'r brif-ddinas, o fewn Cymru a thu draw i Glawdd Offa. Mae Owen Jones, a anwyd yn y Barri, ac sydd wedi treulio blynyddoedd oddi cartref yn Llundain, a thros y môr, cyn dychwelyd i Gaerdydd, yn falch dros ben o'r ymateb a gafwyd i'r arwyddion ac o'r ffaith bod nifer wedi ysgrifennu i ddat gan eu pleser o weld yr arwyddion dwyieithog. Yn ogystal mae ync nifer o "murals" arbennig sydd yn cyflwyno hanes a chymeriad Cymru — dau ohonynt ar ffurf telyn a map o Gymru.

**LLWYDDIANT**

Mae Owen Jones yn gwbl hyderus o lwyddiant y gwesty newydd. "Eisoes," meddai, "mae'r gwesty yn sefydlu ei hunan fel un o fannau âros mwyaf poblogaidd y brifddinas ac mae gennym obeithion mawr am y dyfodol. Wrth gwrs, cefndir busnes a masnachol y ddinas sydd ar hyn o bryd yn denu'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid a rydym yn gyflym ddatblygu yr ochr gynadleddol; hefyd mae'r diwydiant ymwelwyr yn bwysig iawn i ni — mae gan Gaerdydd gymaint i'w gynnig i ymwelwyr — ac yr ydym yn cydweithio'n agos iawn â'r Bwrdd Croeso i Gymru i ddenu rhagor eto o Loegr, Sgotland, Iwerddon ac o wledydd tramor."

Mae'r rhan fwyaf o staff y gwesty yn byw yng Nghaerdydd ac mae eraill wedi symud i'r brifddinas i gymryd swyddi yma. Teimla Owen Jones bod gweithio mewn gwesty yn yrfa arbennig o foddhaol a hoffai weld rhagor o bobl ifanc — yn arbennig Gymry Cymraeg, yn penderfynu dilyn gyrfa yn y diwydiant. "Mae gennym Goleg Hyfforddi yma yng Nghaerdydd," meddai, "ac mae digon o gyfle i fachgen neu ferch sydd â diddordeb mewn pobl ac mewn estyn croeso, yn y math yma o waith."

*Enghraifft o fwydlen ddwyieithog a baratowyd yng Ngwesty'r "Centre" ar gyfer ymweliad parti o seneddwyr o'r Swistir eleni.*

| | |
|---|---|
| *Cocos Penclawdd* | *Penclawdd Cockles* |
| *Cawl Cennin* | *Leek Soup* |
| *Eog Teifi* | *River Teifi Salmon* |
| *Asen o Gig Oen* | *Saddle of Welsh Lamb* |
| *Tatws Newydd Penfro* | *Pembrokeshire New Potatoes* |
| *Llysau'r Gwanwyn* | *Selection of Spring Vegetables* |
| *Hufen a Ffrwythau mewn Gwynwy* | *Vacherin aux Fruits* |
| *Coffi* | *Coffee* |


# CÔR POLIFFONIG CAERDYDD

*Arweinydd:* Roy Bohana.

## CYFRES GYNGHERDDAU YN EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF

1. **Sadwrn, Hydref 20, 1973 am 8.0 p.m.**
   Vesperae Solennes — Mozart
   Paukenmesse — Haydn

2. **Sadwrn, Rhagfyr 8, 1973 am 8.0 p.m.**
   Cerddoriaeth ar gyfer y Nadolig.

3. **Sadwrn, Chwefror 16, 1974 am 8.0 p.m.**
   Cerddoriaeth y cyfnod poliffonig.
   *Arweinydd:* Marin Constantin.

4. **Sadwrn, Mawrth 9, 1974 am 7.30 p.m.**
   Messiah — Handel.

Tocynnau cyfres £2.50, noddwyr £5.00, tocynnau sengl 50c. a 75c. ar gael oddi wrth Mr. J. M. Williams, Argoed, Craig Pen-llin, Y Bont-faen, rhif tel. Y Bont-faen 3623.


# CLEC a CHLONC

Llongyfarchiadau i Peter Elias a'i wraig Elinor ar enedigaeth Elen yn ddiweddar. Peter sy'n gyfrifol am helyntion Llywelyn a'i griw o ddihirod ar Miri Mawr, H.T.V. ac mae'r teulu wedi ymgartrefu yn Llan-maes, ger Llanilltud Fawr. Fe fu Peter mor anffodus â cholli ei dad rai wythnosau'n ôl. Yn rhy aml o lawer, ni cheir mo'r melys heb y chwerw, a chydymdeimlwn ag ef a'i deulu.

*

Dyw gwyliau haf ddim yn fêl i gyd, gwaetha'r modd, ac fe fu Mrs. Margaret Davies, gwraig Mr. Keith Davies, trysorydd Cymdeithas Ysgolion Meithrin Caerdydd mor anffodus a chael damwain mewn car yn Yr Eidal yn ystod Awst. Yn yr Ysbyty Brenhinol y mae ar hyn o bryd, ac er ei bod yn gwella, yno y bydd hi am sbel.

Fe fyddai'n falch gweld cyfeillion yn galw i'w gweld nawr ac yn y man, ac os na fedrwch bicio draw, anfonwch air ati yn y Mametz Ward.

*

Rŷn ni'n clywed llais newydd ar radio a theledu'r BBC y dyddiau hyn, sef llais Mr. Wyndham Richards, sy ar hyn o bryd yn gweithio gydag Adran Gyhoeddusrwydd y Gorfforaeth.

Ond y mae ef a Mrs. Richards hefyd yn gorfod cyfarwyddo â llais newydd, sef llais Aled Wyn, y newydd-ddyfodiad i'w haelwyd. Llongyfarchion i'r ddau.

*

Mae Rita Jones, sy'n Llyfrgellydd gyda'r BBC wedi priodi Mr. Gareth Jones, sy'n llyfrgellydd ym Mhont-y-pridd. Mae'r ddau'n bwriadu ymgartrefu yn Senghennydd a dymunwn rwydd hynt i'r ddau yn eu bywyd newydd.

Mae'n dda deall fod Llyr, mab bychan Mr a Mrs Robin Gwyndaf, Heol Sant Mihangel, allan o'r ysbyty ar ôl cael triniaeth — ac yn gwella'n iawn.

*

Llongyfarchion i Mr a Mrs Evans, Georgian Way ar enedigaeth John. Fe fu Mrs Evans (Mrs Megan Evans) yn athrawes ym Mryn-taf am rai blynyddoedd.

*

Mae Mr. T. Alun Williams, Eglwys-wen o dan driniaeth yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd ond mae'i lu cyfeillion yn falch ei fod yn "cerdded" ar hyd llwybrau gwella. Mae Mr. Williams yn gweithio gyda Gwasg y Brifysgol.

*

Croeso'n ôl i Gaerdydd i Mr a Mrs Graham Thomas. Maen nhw wedi ymgartrefu yn Eskvale Close, Stâd Lady Mary ac mae Mr Thomas yn athro yn Ysgol Uwchradd Caerffili. Mae ganddyn nhw ddau o blant, Huw a Siân, ac mae Siân eisoes wedi profi blas ei hysgol newydd yn Bryn-taf, ac mae Huw yn brysio i dyfu iddo yntau gael mynd yno gyda hi!

*

Llongyfarchion i Mr a Mrs John Wade, 3 Clas Isan, Eglwys-wen ar enedigaeth Alexander. Mae Elinor wrth ei bodd gyda'i brawd bach newydd.

*

Mae Mr a Mrs Alan Wyn Jones, gynt o Bant-mawr, yn byw yn Llanrwst erbyn hyn, ac maen nhw wedi datblygu gwesty enwog Plas Maenan sy'n arbenigo mewn bwydydd ac adloniant Cwbl Gymreig.

*

Mae côr capel Y Tabernacl wrthi nawr yn paratoi ar gyfer perfformiad Y Pasg. Maen nhw'n dysgu Dioddefaint Sant Ioan, ac edrychir ymlaen at berfformiad o'r safon uchel arferol.

**SORI HIWBYRT!**

*Geiriau aelod o Fwrdd Golygyddol 'Y Dinesydd,' a ymddangosodd o dan y llun o Hywel Gwynfryn yn rhifyn Mis Tachwedd ac nid ei eiriau ef.*


**YSGRIFENYDDES**

Mae angen ysgrifenyddes lawn amser neu ran amser dros dro yn Swyddfa Gwasg Brifysgol Cymru. Telir cyflog ar y raddfa £1,353–£1,524 os oes gennych ddiddordeb anfonwch at y Cyfarwyddwr, Gwasg Prifysgol Cymru, Merthyr House, James Street, Caerdydd neu ffoniwch Caerdydd 31919.

**GWENT CAR HIRE**

**Ceir, Faniau, Tryciau, Bysiau Bychain**
**Am awr, am ddiwrnod, am wythnos**

| | |
|---|---|
| Caerdydd Tel. 43151/2 | Casnewydd Tel. 55004 |
| Penybont Tel. 2719 | Pontypridd Tel. 402410 |
| Abertawe Tel. 53169 | Barri Tel. 77030 |
| Aberdâr Tel. 2964 | Ystrad Mynach Tel. 812112 |

OS AM GYSODI AC ARGRAFFU PAMFFLEDI
TOCYNNAU, PAPURAU – UNRHYWBETH
CYSYLLTWCH Â

Mid-Wales Litho

NEW RD. CRUCYWEL, SIR FRYCHEINIOG.
Ffôn CRUCYWEL 302

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

yn cyflwyno


WELSH DYLAN

ARDDANGOSFA UGAIN MLYNEDD WEDI MARWOLAETH Y BARDD

THEATR SHERMAN
HEOL SENGHENYDD . CAERDYDD

hyd TACHWEDD 23

*Poster o'r gerdd "Fern Hill" ar werth 50c.*



YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref...

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

Ni yw'r arbenigwyr

Sleep & Light Centre

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m.–5 p.m.
NOSON HWYR – NOS IAU HYD 7.30 p.m.

*Mae Cwmni Theatr Cymru yn mynd â'r ddrama "HARRIS" o gwmpas y dyddiau hyn fel rhan o ddathliadau dau can mlwyddiant marw'r Diwygiwr. Gwaetha'r modd, dyw e ddim am ddod i brifddinas Cymru, ac fe fyddai'n ddiddorol gwybod pam a ninnau'n darllen ymhobman am y theatrau mawr, ysblennydd sy'n codi ar bob llaw. Fe ŵyr pob un sy'n hyddysg yn hanes y ddeunawfed ganrif iddi fynd yn sawl "split" ar fyd pobol y diwygiadau, ac mae rhai'n awgrymu nad yw pethau'n rhy esmwyth ym myd y theatr. Sut bynnag, os ych chi am weld y perfformiad o "HARRIS" (drama newydd gan Islwyn Ffowc Elis) rhaid ichi bicio drosodd i Gaerffili naill ai nos Wener neu nos Sadwrn, Tachwedd 29 neu 30.*

# COLEG TREFECA

Ar 21 Gorffennaf, 1773, bu farw Howel Harris yn Nhrefeca Fach, ac yntau'n 59 oed. Dywedodd R. T. Jenkins amdano, "Y mae'n anodd credu nad ef oedd Cymro mwyaf ei ganrif". Fe drefnwyd llawer o gyfarfodydd eleni i gofio blwyddyn marw'r gŵr "a ymaflodd mewn cenedl fud a'i gwneud yn llafar," ac mae rhai o'r farn fod y brwdfrydedd newydd tuag at waith Crist yn ein dyddiau ni yng Nghymru yn deillio o rai o'r cyfarfodydd hyn.

## EI DROEDIGAETH

Roedd Hywel Harris yn cymuno yn eglwys Talgarth yn ystod Sulgwyn 1735 pan deimlodd rym "oddi uchod" yn ymaflyd ynddo. Roedd yn 21 oed ar y pryd. Mewn byr amser, fe lwyddodd i drosglwyddo llawer o'r grym yma i galonnau llawer o bobl. Cafwyd cynhadledd yn Nhrefeca beth amser yn ôl ac fe ddaeth dau gant o bobl i addoli i hen eglwys Talgarth – ac ar ôl hynny, fe aethant allan i'r dref dan ganu a dawnsio ac ymweld â thafarndai a chlwb y dre. Trannoeth y cyfarfod, fe fu nifer mawr yn cymuno yn yr awyr agored am wyth o'r gloch y bore.

## EI FFORDD NEWYDD

Yr hyn a wnaeth Harris yn arbennig oedd iddo deithio cymaint o gwmpas Cymru i bregethu a cheisio argyhoeddi'r bobl. Mae'r Parchedig Gomer Roberts yn ei lyfr, "Portread o Ddiwygiwr" yn dweud iddo deithio miloedd o filltiroedd. Y pulpud symudol oedd ei brif erfyn, a rhwydwaith manwl o gelloedd bychain oedd ei batrwm.


## EI AMGUEDDFA

Pan ddowch chi am dro i Drefeca, fe welwch Amgueddfa fechan sy'n cynnwys llawer o bethau i gofio amdano – a rhoddir lle amlwg i bulpud Harris, pulpud symudol, i'w ddefnyddio'n gyson. Mae miloedd o bobl yn dod yn rheolaidd i weld y lle, ac fe fydd croeso yno i chwithau hefyd pan fyddwch am bererindota allan o Gaerdydd.

Dyma ichi lun o Goleg Trefeca, fel ag y mae heddiw. Ynddo, fe welwch chi gyfuniad o'r hen a'r newydd. Yma, dangosir mynediad i'r adeilad a agorwyd eleni. Mae yn ymyl adeiladau'r coleg gyda thŵr Capel Coffa Hywel Harris yn y cefndir.

Fe fydd hwn yn gwrth-ddweud yr hyn a ddywedir yn fynych, sef bod Coleg Trefeca "wedi cau". Mae'r coleg wedi cau, a does dim cyfle heddiw i neb fynd yno i baratoi'i hun ar gyfer y Weinidogaeth. Ond mae'r Athrofa yno o hyd a chynhelir dros 70 o gyrsiau yno eleni. Mae yno groeso i blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae llawer sefydliad ac awdurdod bellach am ddod i Drefeca. Os bydd digwydd i un o sefydliadau'r brifddinas ddymuno dod atom, fe gewch groeso cynnes a phob hwylustod.

– Y Parchedig John Tudor.



# NOSON ARBENNIG!

**medd**

**Merched y Wawr, cylch Caerdydd.**

Ie, noson ddiddorol a gafwyd ar Hydref 23ain yng nghwmni'r Parchedig Jacob Dafis a ddewisodd sôn am "ANTICIWS – neu HYNAFION". Roedd ganddo lond bwrdd o drysorau bach difyr o'i flaen o giwga (sturmant) ei dad hy hyd at flwch "snot" Dewi Emrys y bardd ac fe'n hanogi ni i gyd i ddal ein gafael yn dynn mewn pethau fel hyn – eiddo ein teulu ac eiddo ein cenedl.

**Arafu'r cloc!**

Rhan o'r rheswm dros y ffasiwn bresennol o gasglu *antiques* yw'r awydd sanctaidd sy ar bobl i arafu'r cloc a cherddediad gor-fuan yr amseroedd hyn a chadw o leia un stafell yn y tŷ fel cysegr i fywyd hamddenol y gorffennol. Cymaint fwy fyth ddylai'r Cymry atal i ddarnau gwerthfawr o'u gorffennol hanesyddol fynd dros y ffin. Felly, prynwn bob dreser a chloc wyth niwrnod o fewn gafael!

**Arsenic!**

Pwy ond Cymro allsai fod wedi trafod pwnc fel hwn, heb prin gyffwrdd â gwerth ariannol y nwyddau! Fe ddysgwyd nifer o bethau bach diddorol yn ystod y nos – megis mai arsenic a ddefnyddiwyd gynt i liwio gwydr-llygaid-eirin (cranberry) yn goch – a dod oddi yno, bob un ohonom, wedi'n cynhesu drwodd gan y sgwrs. Dowch yn llu i'r cyfarfod nesa ar Tachwedd 27ain pan fydd Minwel Tibbot o'r Amgueddfa Werin yn adrodd am rai o hen fwydydd Cymru.

**MR. PETER REES.**

Roedd yn flin gan ei lu cyfeillion glywed am farw brawychus o sydyn Mr Peter Rees o Heol Llanishen-fach – ac yntau ond yn saith a deugain oed. Roedd wedi'i fagu yng Nghaerdydd, ond roedd ei deulu'n hannu'n wreiddiol o Gilfachreda, y tu allan i'r Ceinewydd yng Ngheredigion. Roedd yn gweithio gyda'r Bwrdd Trydan, ac mae ein cydymdeimlad ni i gyd gyda'i weddw a'i ferch.

*

**MR. ALBERT EDWARD DAVIES**

Blin yw cofnodi marwolaeth Mr. Albert Edward Davies, 44 Stall Court Avenue, Pen-y-lan yn ddiweddar, ac yntau wedi cyrraedd oed yr addewid. Roedd ef a Mrs. Davies wedi bod yn briod am 45 o flynyddoedd, ac roedden nhw wedi treulio'u bywyd priodasol i gyd yng Nghaerdydd.

Roedd Mr Davies yn ŵr amlwg yn Y Tabernacl. Fe fydd llawer ohonoch yn cofio amdano fel Arolygwr selog yr Ysgol Sul pan oedd cangen yn Heol Harriet, Cathays. Fe fu'n ddiacon yn ei gapel er 1939 ac roedd wedi bod yn ysgrifennydd am naw mlynedd.

Roedd wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Glo, ond ymddeolodd tua saith mlynedd yn ôl.

Mae'n cydymdeimlad gyda'i weddw a'i ferch, Mrs. Ann Meurig Jones, a'r ŵyr a'r wyres fach, Nicholas a Heather.

*

Fe gollodd Y Parchedig Raymond Williams ei dad yn ddiweddar. Fe fu farw yn ei gartref yn Llandybie ar ôl salwch hir. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.



*Gwesty diweddaraf Caerdydd yn gweithredu polisi dwyieithog.*

**BRYNTAF YN FFAU'R CARDI**

Am y tro cyntaf, gyda chaniatâd Cyfarwyddwr Addysg Dinas Caerdydd, cynhaliwyd cwrs i blant Uned 4, ysgol Bryntaf, yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, ynghanol Medi eleni.

Testun yr wythnos oedd "Ceredigion" – a chyda cydweithrediad yr Urdd, Pwyllgor Addysg Sir Aberteifi a Llyfrgellydd y Sir, trefnwyd rhaglen amrywiol yn cynnwys ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol, i dre Aberystwyth, Aberaeron a'r Cei. Aeth grŵp i'r efail yn Nhal-sarn, i Langeitho, Tregaron, Ystrad Fflur a Llanddewibrefi. Aeth grŵp arall i weld ffermdy eglwys Manordeifi, Castell Cilgerran a ffatri wlân Felindre. Uchafbwynt yr wythnos oedd ein hymweliad â theatr Felin-fach i weld a chymryd rhan mewn drama.

Bythgofiadwy oedd presenoldeb a chyfraniad T. Llew Jones yn adrodd hanes cymeriadau o'i waith i wneud llyfrau mor fyw a diddorol. I Miss Cassie Davies a thim Penigamp am ddangos naturioldeb, hiwmor a dawn cyfansoddi, rhoddwn bob clod.

## TREMIO'N ÔL

Dyna a wneir yng nghylch Godre'r Garth yn ystod y gaeaf hwn. Eisoes maen nhw wedi cael darlith gan y Dr. Meredydd Evans ar "Canu Gwerin Morgannwg" ac un arall wedyn ar "Baledwyr Morgannwg". Fe aeth Mr. Gwynedd Pierce â nhw i gefndir hanesyddol Morgannwg ar yr ail o'r mis hwn, ac fe fydd cwrs yn parhau tan y 14eg o Ragfyr. Yna, fe fydd Mr. Vincent Phillips yn ymdrin â chefndir diwylliannol Morgannwg.

Yn ychwanegol at hyn, trefnir dwy ddarlith arbennig. Os carech chi ymuno â nhw, rhaid ichi dalu punt ac ymuno â'r cwmni yn Festri'r Tabernacl, Efail Isaf. Mae pob cyfarfod yn cychwyn am hanner awr wedi saith. Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol sy'n trefnu'r cyfarfodydd.

**Mynnwch eich tocynnau i'r gymanfa isod oddiwrth Sian Edwards, 20, Heol Maryport, y Rhath, Caerdydd.**


cymanfa

# CODI'R TO

Noson o gyd ganu'r hen gerddi o
dan arweiniad RYAN DAVIES a MEREDYDD EVANS
Ceir cyflwyniadau hefyd gan GANTORION ARDWYN a'r DILIAU
Cyfeilyddion - GERAINT JONES ac A. D. THOMAS

**NOS SADWRN, TACHWEDD 24ain am 7.30**

yn

**NEUADD CORY**

**Tocynnau i oedolion – 50c**
**i blant – 25c**

*Yr elw at 'Y Dinesydd' eich papur lleol*


**DRAW DRAW DROS Y MOROEDD!**

Dyna ble mae rhaid ichi fynd i ddilyn hynt dwy o gyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bryn-taf.

Mae Siân Eiri Davies, merch Mr a Mrs Davies, 22 Heol St. Brioc wedi mynd i ddysgu Bioleg mewn ysgol Saesneg yn Madrid, prifddinas Sbaen! Go brin y cewch chi gerdyn Nadolig â naws eira arni oddi wrth Siân. Hon yw ei swydd gyntaf.

Un o ddisgyblion Rhydfelen yw Luned Evans, merch Mr a Mrs Lyn Evans, Sherborne Avenue, Cyncoed – ac mae hi wedi mynd yn bellach fyth – i New Guinea. Mae Luned wedi graddio mewn Cymdeithaseg ac mae wedi derbyn swydd yn y byd cymdeithasol o dan y V.S.O.

Pob hwyl i'r ddwy yn eu swyddi dros y môr. Os llwydda'r Dinesydd i'w cyrraedd, mae'n fwy na phosibl y cawn air oddi wrthynt.


**11 %**

*y flwyddyn*

**11 mis o rybudd i dynnu allan**
**Lleiafswm i agor cyfrif £100**
**Gellir talu llog heb dynnu treth incwm oddi wrtho.**
**Banc Masnachol Cymru Cyf.**
**114 - 116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd**
**Tel: 396131**
**Cofrestrwyd yn Lloegr: Rhif 1002110**
Anfoner y manylion os gwelwch yn dda.
Enw ..............................
Cyfeiriad ........................


*

ATEBION (mae'r cwestiynnau ar dudalen 4.)

1. Brenin Canute
2. Romani
3. Kuala Lumpur.
4. Indonesia.
5. Pegwn y De.
6. Pickwick Papers - gwas i Mr. Pickwick.
7. Wuthering Heights.
8. Esperanto.
9. Warsaw.
10. Edward Elgar a Pomp and Circumstance.


**AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**

# Amgueddfa Werin Cymru

**SAIN FFAGAN**

**Teleffon Caerdydd 561357-8**

**Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlân Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre 'rywydd Uchaf, Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru. Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith ac os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.**

**Gellwch gael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.**

*** Mynediad: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)**
**Pensiynwyr a phlant (o dan 16) 5c**
**Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw**
*** Maes Parcio: Bysiau 15c Ceir Preifat 10c Beiciau Modur 5c**
*** Dyddiau'r wythnos: Ebrill-Medi—10 a.m.-7 p.m.**
**Hydref-Mawrth—10 a.m.-5 p.m.**
*** Suliau: Agorir am 2.30 p.m.**
*** Llawlyfrau (Cymraeg neu Saesneg) ar gael am 10c yr un (16c trwy'r post)**

**Caeir dydd cyn y Nadolig, dydd Nadolig, trannoeth y Nadolig a Dydd Calan.**

# COFIO GWEINIDOG

gan Ll. WALTERS

**Ar Hydref 25 eleni, bu farw'r Parch R. J. Jones yn 87 mlwydd oed. Fel Gweinidog yr Efengyl, bu'n gwasanaethu yng Nghaersalem, Pontyberem 1918–31; Minny Street, Caerdydd 1931–61; a Bethesda'r Barri, 1961–65. Wedi ymddeol, daeth i fyw yng Nghaerdydd gan ymaelodi drachefn ym Minny Street a'i wneud yn Weinidog Emeritus fel arwydd o barch ac anrhydedd i broffwyd ymhlith ei bobl ei hun.**

Yn frodor o Fwlchgwyn, ger Wrecsam, addysgwyd ef yn Ysgol yr Hen Goleg, Caerfyrddin; Coleg y Brifysgol, Bangor, a Choleg Bala Bangor, lle daeth dan ddylanwad y Prifathro Thomas Rees.

Ar ddydd ei arwyl, Llun, Hydref 29, daeth llu o'i gyfeillion i'r oedfa goffa ym Minny Street a oedd yng ngofal y Gweinidog, y Parch. D. T. Evans. Darllenwyd yr Ysgrythur gan Mair Griffiths a'r Parch. Huw Ethall, y naill fel y llall wedi ymateb i alwad dan ddylanwad gweinidogaeth Mr. Jones ym Minny Street. Gweddiwyd gan y Parch. Emlyn Jenkins a thalwyd teyrnged gan ddau gyfaill oes i "R.J." y Parchn. Llywelyn Huws a'r Dr. Lewis Evans. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parch. Dr. Pennar Davies. Yna, bu gwasanaeth i'r teulu'n unig yn Amlosgfa Thornhill.

Ddydd Mercher, gwasgarwyd y gweddillion yn yr ardd goffa yng Nghaersalem, Pontyberem, lle daeth llu o gyfeillion eto ynghyd i dalu'r gymwynas olaf. 'Roedd yr oedfa yng ngofal Gweinidog presennol Caersalem, y Parch. Dafydd Wyn Williams a darllenwyd gan gyn-Weinidog yr Eglwys, y Parch. D. E. Williams. Gweddiwyd gan y Parch. Ieuan Jones a chaed anerchiadau gan y Parchn. Curig Davies, Trebor Lloyd Evans ac Iorwerth Jones. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parch. D. T. Evans.

Anodd iawn yw crynhoi i gwmpas byr holl nodweddion a chyfraniad y gŵr nodedig ac annwyl hwn. Tystiai pawb i'w weledigaeth, ei gadernid, ei gefnogaeth, ei ymroad, ei ddycnwch, ei ddisgleirdeb, ei deyrngarwch, ac eto, ni ellid dweud yn iawn, rywfodd. Cofiodd rhai iddo golli ei fam pan oedd yn bedair oed, gadael yr ysgol yn dair ar ddeg a dechrau ar lafurwaith caled a thrwm. Yna, iddo frwydro yn erbyn afiechyd poenus pan oedd ar ganol gwaith prysuraf y Coleg ac iddo gael ei luddias yn aml gan anhwylder a gwendid golwg. Ond fel y dywedodd un, 'roedd rhywfodd yn gallu taflu'r rhain oll y tu cefn iddo a'u hanwybyddu. Yn y cyswllt hwn, mae'n siŵr, y bu'n iawn i gofio am ofal cyson a gofalus Mrs. Jones a fu'n gymar iddo am dros hanner can mlynedd. A hyfryd oedd eu gweld ar ddiwrnod dathlu'r penblwydd hwnnw, diwrnod heulog a braf, gyda'i gilydd yn y Cwrdd Gweddi ac "R.J." yn dweud ei adnod. "Diffygiaswn pe na chredaswn weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw."

Yn hollol gyson â'r adnod hon, ac fel heddychwr o ran natur ac argyhoeddiad dwfn, 'roedd brwydro dros gyfiawnder ac amodau teg mewn cymdeithas yn rhan hanfodol ymarferol o'i broffes a'i weithgarwch. Ymegniai i sefydlu'r fath gymdeithas led-led byd drwy'r Gymdeithas Genhadol. Eto, nid anghofiai yr un tegwch a chyfiawnder adref yn ei ddinas a'i wlad ei hun. 'Roedd yn un o gefnogwyr selog a chynghorwr doeth yn nyddiau cynnar sefydlu'r Ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ac fe alwodd heibio ar fore cyntaf yr Ysgol. Fel rhan o'r gwaith yn y cylchoedd hyn, 'roedd yn Gadeirydd Bwrdd Cenhadol Llundain, yn aelod o Bwyllgorau Addysg yng Nghaerfyrddin a Chaerdydd, yn aelod o Lys y Brifysgol ac yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Pwysleisiai llawer wrth gofio amdano nodyn cyfamserol ei neges. Pan oedd yn Llywydd yr Undeb ac yn annerch yn Aberystwyth ar y testun 'Galwad yr Amserau' ei frawddeg gyntaf oedd, "Heddiw ydyw un o eiriau pwysicaf bywyd." Enghrafft arall o'r Tyst yn 1941: 'Gyda golwg ar adael i bethau fod hyd ar ôl y rhyfel, digon yw ateb y bydd hi'n rhy ddiweddar bryd hynny.' Hyn ynghanol dyddiau tywyll dinistr a rhyfel.

Tystiolaeth un o'i wrandawyr ieuengaf oedd hyn, wedi bod yn gwrando ar bregethwr 'diarth'. Meddai'r bychan, 'Dyw e' ddim fel Mr. Jones. Mae Mr. Jones yn gweneud yn siwr dy fod ti'n gw'bod ac yn 'i fwrw e' mewn i ti'. Ac eto, wrth weld llun ei Weinidog yn y 'Radio Times', yn dweud gyda balchder, 'Ma'r dyn 'na yn mynd i'r un Ysgol Sul a fi.' Gwnaeth 'R.J.' yn fawr o'r hanes gan sôn am 'arddel y berthynas.'

Ac fel yna fydd hi, cofio a cheisio trosglwyddo'r wefr o gofio. Tinc ei lais, y llaw yn codi gyda'r llais ac yn sôn am 'y ffordd newydd wnaed yn Iesu Grist' ac am 'y golud anchwiliadwy'. Hefyd, yn yr un modd mewn oedfa weddi pan nad oedd y gynulleidfa mor lluosog yn cyhoeddi emyn Edward Jones, Maes-y-plwm, 'Cyfamod Hedd, Cyfamod cadarn Duw, Ni syfl o'i le, nid 'ie' a 'nage' yw.'

Ceisiai un oedd yn annerch ddirnad lle 'roedd cyfrinach nerth 'R.J.' ac meddai 'o flaen popeth 'roedd yn addolwr ac yn weddiwr mawr'. Y geiriau hyn yn dwyn ar gof mai R.J. oedd yn gweddio yng nghyfarfod coffa yr Athro W. J. Gruffydd, gweddi lle plethwyd llawer o ymadroddion Gruffydd ac yn arbennig felly, diolchodd y gweddiwr i Dduw am inni gael adnabod 'Y Tlawd Hwn'. Yn yr un modd, mae'r chwithdod a'r hiraeth yn troi yn gof cyfoethog a bendithiol a diolchwn am gael adnabod a bod yn gyd-bererinion ag un o'r eneidiau mawr. Yng nghwlwm y cofio hwn, estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs. Jones a chyda Hywel a Gwilym a'u teuluoedd.

# Pridd y Gorffennol

Ym mhridd y gorffennol mae hau had y dyfodol," meddai Robin Gwyndaf yn yr ail ddarlith mewn cyfres o ddeg a draddodir o dan y teitl, "Astudiaethau Gwerin" bob pythefnos ar fore Mawrth yn Sain Ffagan. Dyma gyfle i ni Gymry Caerdydd gyfoethogi tipyn ar ein bywyd dinesig diwreiddiau wrth ymddiddori yn y traddodiadau a berthynai i wahanol agweddau ar ein diwylliant Cymreig.

Cafwyd dwy ddarlith eithriadol o ddiddorol eisoes yn y gyfres yma sef "Canu Gwerin Cymru" gan Roy Saer a Cerddi Llafar Gwlad Cymdeithas Fynyddig" gan Robin Gwyndaf. Mae yno saith eto i ddod:

Tachwedd 27: Arferion Bywyd Dyn," gan Catrin Beynon Davies.
Rhagfyr 1: "Y Plygain a'i garolau, gan Roy Saer.
Ionawr 15: "Crefft nodwydd," gan Ilud Anthony.
Ionawr 29: "Gwisgoedd y dair canrif," gan Ilud Anthony.
Chwefror 12: "Dodrefn y Plas," gan Alun Davies.
Chwefror 26: "Dodrefn y Bwthyn," gan Alun Davies.
Mawrth 12: "Y Ty fel Cartref," gan Eirwyn Wiliam.

Trefnwyd y dosbarth gan Dr. Meredydd Evans dan nawdd Adran Allanol y Brifysgol ac fe'i cynhelir o 9.45 a.m. hyd 11.45 a.m. er mwyn i'r mamau hynny sydd â phlant yn mynychu ysgolion meithrin yn y boreau gael mynd adre o'u blaenau ac i'r gweddill ohonom gael rhoi'r tatws ar y tân cyn cinio! Ond nid dosbarth i ferched yn unig yw hwn, cofiwch. Mae tri dyn eisoes wedi mentro atom ac mae croeso i bawb. Os y medrwch chi, cofiwch ddod.

*parhad o dudalen 2.*

hwnt i ddisgwyl i grisialu holl fywyd a dylanwad Mr. Lewis ac i ateb pob sôn am fethiant a gafwyd gan Mr. Lewis ei hun ac a gafodd ei wyntyllu yn ystod cyfnod ( "ddathlu pen-blwydd".

**EFFEITHIOL AC ANEFFEITHIOL!**

Gwnaed defnydd o luniau trwy'r perfformiad, ac ar y cyfan yn dra effeithiol, fel yn y drydedd ran drwy gyd-chwarae **Brad, Gymerwch chi Sigaret? ac Esther** dan gysgod Seren Dafydd a'r Swastica. Roedd yna oleuo effeithiol hefyd ond nid mor effeithiol bob tro oedd ambell lais o'r dirgel. Gan wybod y byddem yn gweld darnau o nifer o ddramâu, doedd neb yn disgwyl ond awgrym o wisgoedd a setiau, a bod sgarff myfyriwr, clogyn melfed tywysog ac yn y blaen a newid ffurf un darn o'r props yn dangos newid o ddrama i ddrama. Os oedd sŵn y symud yn **embaras** i rai yn y gynulleidfa, fe dybiwn fod hynny'n adlewyrchu mwy arnyn nhw nag ar yr actorion. Roedd ôl meddwl a chynllunio ar y cyfan, gan gynnwys hefyd y rhaglen nodedig fydd yn cael lle parch ar ein silffoedd, gyda'r cerddi newydd a'r casgliad diddorol o luniau o amryw gynhyrchiadau o weithiau Mr. Lewi gynyrchiadau o weithiau Mr. Lewis.

**CANMOLADWY IAWN**

Nid gwaith hawdd i actor, rwy'n siŵr, yw symud yn sydyn o gymeriad i gymeriad ac o olygfa i olygfa ond fe wnaeth y cwmni o chwech yn ganmoladwy iawn, yn ddigon felly i wneud i mi deimlo y carwn eu gweld yn rhoi perfformiad llawn i ni o bob un o'r dramâu. Roedd rhai darnau'n apelio mwy ataf na'r lleill, ac ambell bortread yn fwy cofiadwy na'i gilydd – Gwyn Parry yn annerch y llys gyda rhyw ddiffuantrwydd a thân tawel; daeth Michael Povey â holl fethiant personoliaeth Dewi yn fyw iawn; fe dyfodd Islwyn Morris yn Albrecht cofiadwy; ac roedd Christine Pritchard yn dda ymhob rhan, yn arbennig fel Sara yn **Probleman Prifysgol** i Ffioreta nwyfus Olwen Rees. Ond i mi, uchafbwynt y noson oedd y darnau o **Siwan.** Cawsom Gwilym Brewys cellweirus, beiddgar gan Michael Povey, mawredd Siwan gan Christine Pritchard ac yn bennaf portread Stuart Jones o Llywelyn Fawr. Ychydig wythnosau'n ôl, gwefreiddiwyd cynulleidfa Cymdeithas Lenyddol Caerdydd gan Dr. John Gwilym Jones yn darllen araith fawr Llywelyn pan mae'n sôn wrth Siwan am ei gariad tuag ati. Feddyliais i ddim erioed y gallwn glywed actor yn gwneud yr un cyfiawnder â'r darn! Ond roedd dehongliad Stuart yn wefreiddiol. Ni obeithiaf weld gwell Llywelyn byth. Mae gan Stuart Jones ddawn arbennig a phresenoldeb aruthrol ar lwyfan, a chwaraeodd bob rhan yn ddeallus a hydeiml.

Wel, beth amdani Theatr yr Ymylon – tymor o ddramâu Saunders Lewis?


CYSODI ELGAN

*Papurau Newydd, Llyfrau, Pamphledi etc. etc.*

*Os ydych am fwy o wybodaeth galwch i fewn yn*
**9, FITZALAN PLACE, CAERDYDD. Ffôn: 25869.**



**CINIO'R FLWYDDYN....**

**Clwb Rygbi Cymry Caerdydd**

**Gŵr Gwadd: CARWYN JAMES Ysw.**

*Adloniant: "Edward H. Dafis" gyda "Ac Eraill"*

NOS WENER, RHAGFYR 21ed, 1973
GWESTY'R FRENHINES

**TOCYNNAU £2.50 yr un.**

**Croeso Cynnes i Bawb.**

*Tocynnau oddiwrth : M. Williams, 77 Melrose Ave., Penylan, Caerdydd 20758.*


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor y Dinesydd. Cysodi a chynllunio gan Cysodi Elgan. Argraffwyd gan "Mid Wales Litho".*